

ARCHWILIAD	Arolygwyr / Inspectors: HYWEL WYN JONES BA (Hons), BTP, MRTPI RICHARD DUGGAN BSc (Hons), DipTP, MRTPI
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn	Swyddog Rhaglen / Programme Officer: SHARON ELLIS
Anglesey & Gwynedd Joint Local Development Plan	☎01286 679411 ✉ SwyddogRhaglen@gwynedd.gov.uk
EXAMINATION	Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH

Sesiwn Gwrandawriad 2
DARPARIAETH TAI
9.30 yb, Dydd Mercher 7 Medi 2016

Agenda Materion a Phynciau

- 1 Cyflwyniad**
- 2 Materion Gweithdrefnol**
- 3 A yw'r ffigwr gofyniad tai o 7,184 yn briodol ar gyfer bodloni anghenion y Siroedd dros gyfnod y Cynllun?**
 - a. A yw'r Cynllun wedi'i lywio gan asesiad cadarn o'r gofyniad tai, gan gymryd Polisi Cynllunio Cymru i ystyriaeth?
 - b. Wrth nodi'r ffigwr gofyniad, a roddwyd ystyriaeth ddigonol i amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth Llywodraeth Cymru?
 - c. A yw'r ffigwr gofyniad wedi'i lywio gan asesiad cadarn o'r prif ddylanwadau lleol ar y galw am dai, gan gynnwys: ffurfiant aelwydydd, mewnfudo, a chymarebau trosiant aelwydydd.
- 4 A yw'r cyfrifiadau Cyflenwad Tai a osodir allan ym Mholisiâu TAI14-17 (fel y'u diwygiwyd gan NF77 a 78) yn briodol?**
 - a. A yw'r ffigyrau yn TAI14-17 yn ddigon cyfamserol a chywir?
 - b. A fydd y Cynllun yn darparu cyflenwad pum mlynedd o dai dros gyfnod y Cynllun?
 - c. A yw'r holl safleoedd a neilltuwyd ar gael ac yn gyflawnadwy o fewn yr amserlen a ragwelir? A yw'r safleoedd a neilltuwyd wedi'u cefnogi gan fethodoleg asesu safle gadarn a chynhwysfawr, yn rhydd o gyfyngiadau datblygu sylweddol ac wedi'u dangos i fod yn economaidd hyfyw a chyflawnadwy?
 - ch. A yw'r nifer amcangyfrifedig o unedau o safleoedd ymrwymedig a safleoedd ar hap yn realistig, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael?

d. A yw dull y Cynllun o gyflawni graddol yn briodol? Sut fyddai'r gyfradd a ragwelir o gyflawni yn cael ei hwyluso'n ymarferol?

dd. A yw'r cyfraddau cwblhau arfaethedig yn realistig? Beth yw goblygiadau methu â darparu'r nifer gofynnol o dai?

e. A yw'r lwfans llithriad o 10% yn rhoi digon o hyblygrwydd os na fydd safleoedd yn cael eu cyflwyno fel y rhagwelwyd?

5 Mewn perthynas â mathau eraill o ddarpariaeth tai penodol:

a. A oes cyfiawnhad dros gyfyngu ar dai newydd yn yr aneddiadau haen is i fodloni 'angen cymunedol' neu dai fforddiadwy yn unig? A fyddai'r polisi yn gwasanaethu ei ddiben arfaethedig? Sut fyddai'n gweithio'n ymarferol?

b. A oes cyfiawnhad dros yr eithriad a nodir ym maen prawf 1. TAI2 (tai teras deulawr)?

i. A fydd yn llesteirio'n ormodol ar y ddarpariaeth o gymysgedd lleol o dai mewn ardaloedd lle gallai fod galw am gartrefi llai o faint?

ii. Ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael ag unrhyw bwysau canfyddedig ar y stoc tai?

c. A fydd polisi TAI3 yn cyflawni ei ddiben arfaethedig o ran rheoli effaith gweithwyr adeiladu dros dro ar y stoc tai yn y dyfodol?

6 A yw'r Cynllun yn darparu sail gadarn ar gyfer cyflawni a monitro darpariaeth tai?

a. A yw'r Cynllun yn cynnwys mecanweithiau monitro ac adolygu cadarn a fydd yn galluogi'r strategaeth dai i ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid?

7 Unrhyw faterion eraill